**Theatr Clwyd**

Rheolwr Technegol Lleoliad

**Teulu:** Profiad
**Yn adrodd i:** Cyfarwyddwr Cynhyrchu a Rhaglennu
**Yn gyfrifol am:** Dirprwy Reolwyr Technegol Lleoliad, Technegwyr Lleoliad, Criw

**Pwrpas y Swydd**

Mae'r Rheolwr Technegol Lleoliad yn arwain y gwaith o redeg adran dechnegol y lleoliad o ddydd i ddydd, gan sicrhau bod yr holl gynyrchiadau, y llogi a'r digwyddiadau yn Theatr Clwyd yn cael eu cyflwyno'n ddiogel ac yn effeithiol.

Mae'r rôl yn gyfrifol am gydlynu adnoddau technegol, cyfleusterau a staff i gefnogi cynyrchiadau mewnol Theatr Clwyd a rhaglen amrywiol o waith sy'n ymweld. Bydd deiliad y swydd yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei weithredu'n llyfn o fewn amserlenni a chyllidebau y cytunwyd arnynt, gan gynnal safonau technegol uchel ac arferion gweithio diogel bob amser.

Gan weithio'n agos gyda thimau creadigol, cwmnïau sy'n ymweld a chydweithwyr ar draws y sefydliad, mae'r Rheolwr Technegol Lleoliad yn goruchwylio'r cynllunio technegol a'r cyflwyno gweithgarwch ar draws yr adeilad, gan gefnogi creu, cyflwyno a theithio theatr a digwyddiadau byw eraill.

**Cyfrifoldebau Allweddol**

**Gweithrediadau Technegol**

- Goruchwylio darpariaeth dechnegol yr holl gynyrchiadau, y llogi a'r digwyddiadau ar draws y lleoliad, gan sicrhau bod y gweithgarwch yn cael ei ddarparu'n ddiogel, yn effeithlon ac i safon broffesiynol uchel.
- Dylunio a gweithredu gweithdrefnau a phrotocolau newydd i sicrhau cysondeb ac ansawdd y gwasanaeth ar draws yr adran.
- Cynllunio a chydlynu gofynion technegol cynyrchiadau a digwyddiadau, gan sicrhau bod y llwyfannu, yr offer, y cyfleusterau a'r staffio yn bodloni anghenion pob cynhyrchiad.
- Gweithredu fel y prif gyswllt technegol ar gyfer cwmnïau, cynhyrchwyr, hyrwyddwyr a llogwyr sy'n ymweld, gan ddarparu gwybodaeth dechnegol, cyngor a chefnogaeth cyn ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad.
- Cynnal dealltwriaeth drylwyr o seilwaith technegol a galluoedd y lleoliad, gan gynnwys goleuo, sain, llwyfannu, seddi a chyfleusterau cefn llwyfan.
- Gweithredu fel Technegydd ar Ddyletswydd ar gyfer perfformiadau a digwyddiadau yn ôl yr angen.

**Arweinyddiaeth Tîm**

- Recriwtio, arwain a goruchwylio technegwyr a chriw y lleoliad, gan gefnogi datblygiad tîm technegol medrus a hyderus sydd wedi'i hyfforddi'n dda.
- Cynllunio a chydlynu staff i gyflwyno rhaglen brysur o gynyrchiadau a digwyddiadau.

- Meithrin diwylliant tîm cadarnhaol, gan gefnogi datblygiad staff a sicrhau safonau uchel o broffesiynoldeb, diogelwch a chydweithredu.

**Offer a Chyfleusterau**

- Goruchwylio cynnal a chadw, gwasanaethu a rhestr eiddo’r offer technegol, gan sicrhau archwilio, profi a chadw cofnodion priodol yn unol â gofynion statudol (gan gynnwys PAT, LOLER a rheoliadau perthnasol eraill).
- Sicrhau bod cyfleusterau technegol yn cael eu rheoli a'u cynnal yn effeithiol ar draws y lleoliad.
- Darparu gwaith cynnal a chadw rheng flaen a datrys problemau systemau ac offer technegol lle bo hynny'n briodol.

**Iechyd a Diogelwch**

- Sicrhau bod arferion gweithio diogel yn cael eu cynnal bob amser ar draws pob gweithgaredd technegol.
- Cynhyrchu ac adolygu asesiadau risg a datganiadau dull lle bo angen.
- Goruchwylio arferion gweithio diogel wrth symud cynhyrchiad i mewn i’r theatr, yn ystod ffitiadau a pherfformiadau ac wrth adael y theatr.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau iechyd a diogelwch perthnasol, gan gynnwys gofynion Asesu Risg Tân.
- Sicrhau bod hyfforddiant a gweithdrefnau priodol yn eu lle ar gyfer y staff technegol, gan gynnwys codi a chario a gweithdrefnau brys.

**Cydweithredu a Chynrychiolaeth**

- Cydweithredu â chydweithwyr ar draws y sefydliad i gefnogi cyflwyno rhaglen Theatr Clwyd yn llwyddiannus a sicrhau profiad rhagorol i artistiaid, cwmnïau a chynulleidfaoedd sy’n ymweld.
- Cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwylliant, gwerthoedd ac enw da Theatr Clwyd, gan weithredu fel llysgennad i'r sefydliad.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol gan y Cyfarwyddwr Cynhyrchu a Rhaglennu.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Profiad proffesiynol sylweddol o fewn adran dechnegol theatr neu ddigwyddiadau byw, lleoliad cynhyrchu, cwmni teithiol neu amgylchedd tebyg.
- Gwybodaeth gref am theatr dechnegol, gyda phrofiad ymarferol o systemau goleuo, sain a llwyfan.
- Profiad o weithio gyda rigio theatrig, systemau hedfan, golygfeydd a decin llwyfan.
- Profiad clir o reoli neu oruchwylio staff technegol neu griwiau.
- Profiad o reoli adnoddau a chyllidebau yn effeithiol.
- Hynod drefnus, gyda'r gallu i reoli prosiectau niferus a blaenoriaethu gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd.
- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i weithio'n hyderus gydag artistiaid, cwmnïau sy'n ymweld a chydweithwyr ar draws adrannau.
- Gwybodaeth ymarferol am ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol a chanllawiau’r diwydiant (gan gynnwys canllawiau PUWER, COSHH, LOLER ac ABTT).

- Profiad o baratoi ac adolygu asesiadau risg a datganiadau dull.
- Sgiliau technegol ymarferol gan gynnwys defnydd diogel o offer llaw ac offer pŵer cludadwy.
- Y gallu i weithio'n ddiogel ar uchder ac ymgymryd ag agweddau corfforol ar waith theatr dechnegol.
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac ar y cyd mewn amgylchedd theatr gynhyrchu brysur.
- Parodrwydd i weithio oriau hyblyg ac anghymdeithasol, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau fel sy'n ofynnol gan y rhaglen.
- Trwydded yrru lawn y DU, gyda phrofiad o yrru faniau echel hir.

**Dymunol**

- Hyfforddiant neu ardystiad mewn codi a chario a defnyddio ystolion ac offer mynediad yn ddiogel.
- Y gallu i ddarllen a dehongli darluniau technegol, gyda phrofiad o feddalwedd CAD neu ddrafftio technegol.
- Gwybodaeth am theori ac ymarfer trydanol yn ymwneud â goleuo theatr a systemau sain a chyfathrebu.
- Yn gyfarwydd â systemau goleuo, sain a chlyweledol modern, gan gynnwys systemau rheoli a chwarae’n ôl.
- Profiad o gefnogi neu gydlynu digwyddiadau o fewn lleoliad neu amgylchedd perfformio byw.
- Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg (ar lafar a / neu yn ysgrifenedig).